**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Chwefror y 13eg yn Neuadd Y Rhiw**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Emlyn Jones, Jaci Jones, Dafydd Myrddin, Tim Rosa, Nesta Roberts ac RJ Williams
**Yn y gadair:** Y Cyng Wenda Williams
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb:</u>**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gwenllian Hughes Jones a Dafydd Williams. Datganodd y Cyng Mari Evans ddiddordeb yng nghais cynllunio C23/0079/30/DT.
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>**: Nid oedd gan y Cadeirydd ymddiheuriadau
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Ionawr 2023</u>**: Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**<u>4</u>) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
Derbyniwyd ymateb gan Gareth Roberts y Peiriannydd Ardal fel a ganlyn:
**a)Cylchdaith Graeanu:** Gofynwyd am restr o'r ffyrdd penodol y mae'r Cyngor Cymuned yn cyfeirio atynt - nodwyd mai lôn Nant Eiddon, lôn Anelog a'r lôn o Finafon i Llanllawen sydd a mwyaf o flaenoriaeth gan fod y bysus ysgol yn teithio arnynt ac nid ydynt yn cael eu graeanu.
**b)Lôn Fryndol, Y Rhiw:** Mae'r ffordd yma wedi ei adnabod eisoes fel un sydd angen sylw a chaiff sylw pan mae adnoddau'n caniatáu.
**c)Lôn Penarfynydd, Y Rhiw:** Mae Lôn Penarfynydd ar y rhestr ail-wynebu i'w flaenoriaethu. Nid oes sicrwydd pryd caiff y gwaith yma ei wneud oherwydd ansicrwydd toriadau yng nghyllideb yr adran yn y flwyddyn ariannol nesaf. Heb wybod y canlyniad i'r toriadau ni ellir rhoi amser pendant i gyflawni'r gwaith ail-wynebu.
**ch)Brynffynnon, Rhoshirwaun a Lôn Rhiw, Mynytho:** Mae'r tyllau erbyn hyn wedi cael sylw.
**d)Lôn Felin Uchaf, Rhoshirwaun:** Bydd yr Adran Traffig yn ymateb yn uniongyrchol ynglyn a'r arwydd dim loriau.
**dd)Wal Hen Dŷ'r Plisman, Aberdaron:** Mae y Cyngor wedi hysbysu'r perchennog fod ei wal derfyn wedi cael ei tharo, mae wedi trefnu i wneud y safle'n ddiogel dros dro.
**e)Wal Mynwent Eglwys Aelrhiw, Y Rhiw:** Mae'r Cyngor wedi hysbysu perchennog y wal ac mae wedi cytuno i ddiogelu'r safle.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd:** Adroddwyd fod cyfarfod trwy zoom wedi ei gynnal gyda Caryl Lewis o gwmni Celyn a Matt Osmont o gwmni penseiri Donald Insall. Roedd pedwar aelod o'r Cyngor a'r clerc yn bresennol. Roedd 77 o holiaduron wedi ei dychwelyd fel rhan o ymgynghoriad am ddyfodol yr eglwys ac mae y dadansoddiadau wedi eu cylchredeg i bob aelod o'r Cyngor. Mae y pensaer wedi addo creu cynllun manwl ar gyfer trwsio yr eglwys dros dro ac mae pryder fod y dyddiad cau ar gyfer hawlio grant AHNE yn agosau ac nid yw y gwaith trwsio drod dro wedi ei gwblhau gan i'r Cyngor benderfynu peidio a mynd ymlaen â'r gwaith yn dilyn cael trafodaeth gyda adeiladwyr lleol rai misoedd yn ôl. Nid oedd y tri adeiladwyr yn gadarnhaol ynghylch ymgymeryd â'r gwaith trwsio dros dro gan fod y to mor fregus a theimlwyd fod angen ail wneud y to yn gyfan gwbl.
Mae cais datgan diddordeb i gronfa Cadw wedi ei gyflwyno yn mis Rhagfyr a disgwylir canlyniad y cais ar y 19eg o Fwarth. Penderfynwyd hysbysu yr adran AHNE nad yw y gwaith trwsio dros dro yn mynd i gael ei gwblhau ac felly nad oes angen y gyfran a glustnodwyd ar gyfer y gwaith. Bydd penderfyniad ynghylch sut i symud ymlaen yn cael ei gymeryd yn dilyn derbyn penderfyniad Cadw.
Mae cyfarfod zoom wedi ei drefnu gyda Caryl Lewis a Matt Osmont ar y 1af o Fawrth er mwyn trafod y broses ymgynghori ymhellach.
**iii)Clwb Ieuenctid:** Adroddwyd nad oes goruchwyliwr wedi ei benodi hyd yma, ac fe fydd y goruchwyliwyr presennol yn parhau i ofalu am y Clwb Ieuenctid yn y ganolfan, felly ar hyn o

bryd nid oes côst i’r Cyngor.
**iv)Hysbysfyrddau:** Mae yr hysbysfyrddau wedi eu harchebu a byddant yn cael eu hanfon ddechrau mis Ebrill, fe fydd angen anfoneb yn fuan er mwyn hawlio y grant AHNE amdanynt.
**v)Cyfyngiad ‘30’mya yn Y Rhiw:** Derbyniwyd ymateb gan Andrew Gregson yn nodi ei bod braidd yn hwyr i roi cais am gyfyngiad ‘20’ sydd yn rhan o ymgynghoriad ar hyn o bryd ond fe fydd yr alwad am gyfyngiad ‘30’ yn cael ei nodi.
**vi)Bwi ar draeth Aberdaron:** Mae’r bwi wedi ei symud oddi ar y traeth. Penderfynwyd holi yr Adran Forwrol/Cyng Gareth Williams am ddyddiad y cyfarfod gyda yr Adran i drafod y ddarpariaeth yn Aberdaron yn ystod y tymor ymwelwyr.
**vii)Cais cynllunio Pant Valley:** Derbyniwyd manylion y penderfyniad i wrthod y cais gan Gyngor Gwynedd ac mae’r cyngor cymuned ar ddaeall fod cais arall i’w gyflwyno. Penderfynwyd peidio ymateb ymhellach hyd y bydd y cais newydd wedi ei dderbyn.
**viii)Gorfodaeth cynllunio The Wilds:** Does dim ymateb wedi ei dderbyn hyd yma gan yr Adran Gynllunio.
**5) <u>Gohebiaethau</u>**
**i)Cais gan Gyngor Cymuned Llanbedrog parthed llifogydd ar yr A499:** Mae llythyr wedi ei anfon i gefnogi y pryder am sefyllfa y ffordd ac am yr angen am arwyddion mewn mannau megis Penygroeslon i hysbysu modurwyr pan fydd y ffordd ar gau.
**ii)Arwyddion Porthor/ ‘Whistling Sands’:** Derbyniwyd cais gan Gyngor Gwynedd trwy law y Cynghorydd Sir i gyfnewid tri arwydd ffordd sydd yn flêr am arwyddion newydd yn cyfeirio at ‘Porthor’ a heb ‘Whistling Sands’, gofynwyd i’r Cyngor Cymuned ysgwyddo y gôst o £100 yr un. Mae y Cyngor yn cefnogi cyfnewid yr arwyddion ond nid oes cyllideb i dalu amdanynt. Teimlir mai Cyngor Gwynedd ddylai dalu amdanynt.
iii)Llythyr Steffan Smith yn gofyn am i’r Cyngor Cymuned helpu i hyrwyddo y Cynllun Prynu Cartref Gwynedd: Fe wnaiff yr aelodau eu gorau i hyrwyddo y cynllun.
iv)Llythyr gan Delyth Jones ar ran Pwyllgor Cronfa Leol Aberdaron yn gofyn am gyfraniad tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023: Penderfynwyd trafod yn mis Mawrth.
**6) <u>Cynllunio</u>**
C23/0061/30/LL: Cais ar gyfer codi adeilad cadw tail gyda thanc tanddaearol a chysylltiad iddo i ddal unrhyw hylif, Bryn Gwynt, Anelog - cefnogi
C23/0047/30/DT: Cais ar gyfer codi estyniad unllawr ar ochr yr eiddo, Tŷ Bach, Rhydlios, Pwllheli, Gwynedd - cefnogi
C23/0079/30/DT: Estyniadau ac addasiadau i dy presennol ynghyd a chreu a gwella mynedfa gerbydol ac ardal parcio, Bron Foel, Uwchmynydd, Pwllheli, Gwynedd - cefnogi (gadawodd y Cyng Mari Evans yr ystafell yn ystod y drafodaeth)
C23/0054/30/LL: Cais ar gyfer trosi adeilad allanol i dy ar gyfer gweithiwr amaethyddol , Fferm Carreg, Aberdaron - cefnogi
**7)Adroddiad archwiliad y cae chwarae**
**8)Ariannol**
**Taliadau**
Iwan Hughes: £195.33
HMRC (Paye): £49
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
Wickteed Leisure: £180 (archwiliad iechyd a diogelwch y cae chwarae)
Swyddfa Archwilio Cymru: £277 (archwiliad 2021-22)
Ffioedd Hsbc: £5
Donald Insall: £600 (ffioedd proffesiynnol)
Neuadd Y Rhiw: £20 (cyfarfod)
**Derbyniadau**
GD Roberts: £165 (claddedigaeth y diw. Richard Ellis)
Cyngor Gwynedd: £681.50 (grant llwybrau)
Tŷ Doctor: £678.55 (ad-daliad)
**9) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Derbyniwyd cwyn fod sbwriel yn chwythu allan o’r lori ailgylchu gan nad ydi y drysau yn cael eu cau yn iawn, a bod blerwch oherwydd fod y gweithwyr ar frys i gael gorffen er mwyn mynd adref.
ii)Gan nad ydi BT Openreach yn cymeryd sylw o gwynion am wifrau yn hongian oddi ar y polion yn yr ardal, yn enwedig ar Allt Y Rhiw, penderfynwyd hysbysu Cyngor Gwynedd gan fod pryder am iechyd a diogelwch gan eu bod yn chwifio yn y gwynt.
iii)Mae cwynion am arwyddion yn cael eu gadael ar y ffyrdd yn yr ardal, yn enwedig rhwng Deuglawdd a Mur Melyn.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o’r Cyngor nos Lun y 13eg o Fawrth yng Nghanolfan Deunant**